# HUW ap DAFYDD (fl. c. 1550-1628), bardd

**Enw:** Huw ap Dafydd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

Gan mai boneddigion Gogledd Cymru oedd gwrthrychau ei farddoniaeth mawl a marwnad, gellir tybio mai brodor o'r Gogledd oedd yntau (er bod *Cambrian Biography*, *Cymru (O.J.)*, *Enwogion Cymru: a Biographical Dictionary of Eminent Welshmen*, a Blackwell yn rhoi ei gartref yn Euas, sir Henffordd). Cadwyd llawer o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau, yn cynnwys cywyddau i Hywel ap Sion ap Dafydd ab Ithel Fychan o Fryn Cynddel, Sion ap Hywel Fychan o Benllyn, Syr Rhoesier Salbri o Lyweni, Pyrs Salbri o Fachymbyd, Pyrs Gruffydd o'r Penrhyn, Lewys Owain, a Sion ab Elis Eutun o Riwabon.

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 163: Poetry and prophecies

*NLW MSS* 278, 644, 1580, 6681, 13072

*Llawysgrif Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 1

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

J. Davies, *Antiquæ linguæ Britannicæ et linguæ Latinæ, dictionarium duplex* (1632)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733217


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu